

# Nodiadau i'r diffynnydd ar ateb i'r ffurflen hawlio y tu allan i'r awdurdodaeth

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus, os gwelwch yn dda - byddant yn eich helpu i benderfynu beth i'w wneud ynghylch yr hawliad hwn. Ceir gwybodaeth bellach mewn cyfres o daflenni sydd ar gael o'r llys yn ddi-dâl.

- Os derbyniwyd y ffurflen hawlio hon gyda manylion yr hawliad wedi eu nodi arni neu ei hatodi, rhaid i chi ateb o fewn y terfyniadau amser a nodir yn Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil 6.35 (2), (3), (4), a chyfarwyddyd ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil. Ewch i'r wefan ganlynol i gael rhagor o wybodaeth [http://www.justice.gov.uk/civil/procrules\\_fin/index.htm](http://www.justice.gov.uk/civil/procrules_fin/index.htm). Os ysgrifennwyd y geiriau 'manylion yr hawliad i ddilyn' ym mlwch manylion yr hawliad, ni ddylech ateb cyn y cyflwynir manylion yr hawliad i chi (dylai hynny ddigwydd cyn pen 14 diwrnod ar ôl i chi gael y ffurflen hawlio).
- Gellwch un ai:
  - dalu'r cyfanswm h.y. y swm a hawlir, ffi y llys, a chostau twrnai (os oes rhai)
  - addef bod y cyfan neu ran o'r hawliad yn ddyledus gennych a gofyn am amser i dalu neu
  - wrthwynebu'r hawliad
- Os na fyddwch yn ateb, gellir cofnodi dyfarniad yn eich erbyn.
- Y mae'r nodiadau isod yn dweud wrthych beth i'w wneud.
- Bydd y pecyn ymateb yn dweud wrthych pa ffurflenni i'w defnyddio ar gyfer eich ateb. (Bydd y pecyn hwnnw yn eich cyrraedd gyda manylion yr hawliad, os cyflwynir y rheini ar ôl y ffurflen hawlio).
- Gall staff y llys eich helpu i lenwi'r ffurflenni ateb a rhoi gwybod i chi am drefniadaethau'r llys. Ond ni allant roi cyngor cyfreithiol. Os oes arnoch angen cyngor cyfreithiol, er enghrafft ynghylch y tebygrwydd o wrthwynebu'r hawliad yn llwyddiannus, dylech gysylltu â thwrnai neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar unwaith.

**Cofrestru Dyfarniadau:** Os yw'r hawliad hwn yn arwain at ddyfarniad yn eich erbyn, yna cofnodir y manylion ar gofrest gyhoeddus, Y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon. Byddant wedyn yn cael eu trosglwyddo i asiantaethau cyfeirnod credyd a fydd, yn eu tro, yn eu hanfon at roddwyr credyd ac eraill a fydd yn ceisio gwybodaeth ynghylch eich sefyllfa ariannol. **Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i chi gael credyd.** Gellir cael rhestr o asiantaethau cyfeirnod credyd gan Registry Trust Ltd, 173/175 Cleveland Street, Llundain W1T 6QR.

**Costau a Llog:** Gellir ychwanegu costau a llog ychwanegol at y swm a hawlir ar dudalen flaen y ffurflen hawlio, os cofnodir dyfarniad yn eich erbyn. Mewn llys sirol, os gwneir dyfarniad am £5,000 neu ragor, neu os oes a wnelo'r dyfarniad â dyled sydd yn denu llog cytundebol neu statudol am hwyr-daliad, mae'n bosib y bydd gan yr hawlydd hawl i log pellach.

# Notes for defendant on replying to the claim form out of the jurisdiction

Please read these notes carefully - they will help you decide what to do about this claim.

Further information may be obtained from the court in a series of free leaflets.

- If this claim form was received with the particulars of claim completed or attached, you must reply within the time limits set out in CPR 6.35 (2),(3),(4) and practice direction B of Part 6 of the CPR for further information see the following web address for details [http://www.justice.gov.uk/civil/procrules\\_fin/index.htm](http://www.justice.gov.uk/civil/procrules_fin/index.htm). If the words 'particulars of claim to follow' are written in the particulars of claim box, you should not reply until after you are served with the particulars of claim (which should be no more than 14 days after you received the claim form).
- You may either:
  - pay the total amount i.e. the amount claimed, the court fee, and solicitor's costs (if any)
  - admit that you owe all or part of the claim and ask for time to pay, or
  - dispute the claim
- If you do not reply, judgment may be entered against you.
- The notes below tell you what to do.
- The response pack will tell you which forms to use for your reply. (The pack will accompany the particulars of claim if they are served after the claim form).
- Court staff can help you complete the forms of reply and tell you about court procedures. But they cannot give legal advice. If you need legal advice, for example about the likely success of disputing the claim, you should contact a solicitor or a Citizens Advice Bureau immediately.

**Registration of Judgments:** If this claim results in a judgment against you, details will be entered in a public register, the Register of Judgments, Orders and Fines. They will then be passed to credit reference agencies which will then supply them to credit grantors and others seeking information on your financial standing. **This will make it difficult for you to get credit.** A list of credit reference agencies is available from Registry Trust Ltd, 173/175 Cleveland Street, London W1T 6QR.

**Costs and Interest:** Additional costs and interest may be added to the amount claimed on the front of the claim form if judgment is entered against you. In a county court, if judgment is for £5,000 or more, or is in respect of a debt which attracts contractual or statutory interest for late payment, the claimant may be entitled to further interest.

# Eich ymateb chi, ar hyn fydd yn digwydd nesaf

## Sut i dalu

Peidiwch â dod ag unrhyw daliadau i'r llys - ni chânt eu derbyn.

Wrth wneud taliadau i'r hawlydd, dyfynnwch gyfeirnod yr hawlydd (os oes un) a rhif yr hawliad.

Gnewch yn sicr eich bod yn cadw cofnodion ac y gellwch roi cyfrif am yr holl daliadau a wneir. Mae'n bosib y bydd angen prawf os bydd unrhyw anghytundeb. Nid yw'n ddiogel i anfon arian trwy'r post heb ei gofrestru.

## Addef yr Hawliad

### Hawliad am swm penodol

**Os ydych yn addef y y cafyan o'r hawliad,** ewch â neu anfonwch yr arian, gan gynnwys ffi y llys, unrhyw log a chostau, at yr hawlydd i'r cyfeiriad anfon taliadau a nodir ar y ffurflen hawlio, o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil.

**Os ydych yn addef y cyfan o'r hawliad ac yn gofyn am amser i dalu,** llenwch Ffurflen N9A ac anfonwch hi at yr hawlydd i'r cyfeiriad anfon taliadau a nodir ar y ffurflen hawlio, o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil. Bydd yr hawlydd yn penderfynu a fydd yn derbyn eich cynnig ynglyn â thalu ai peidio. Os derbynnyr eich cynnig, gall yr hawlydd ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn, ac anfonir gorchymyn i dalu atoch. Os na dderbynnyr eich cynnig, bydd y llys yn penderfynu sut y dylech dalu.

**Os ydych yn addef rhan o'r hawliad yn unig,** llenwch Ffurflen N9A yn ogystal â Ffurflen N9B (gweler 'Gwrthwynebu'r Hawliad' drosodd) ac anfonwch hwy i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil. Bydd yr hawlydd yn penderfynu a fydd yn derbyn eich addefiad rhannol ai peidio. Os derbynnyr ef, gall yr hawlydd ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn, a bydd y llys yn anfon gorchymyn i dalu atoch. Os na dderbynnyr eich addefiad rhannol, bydd yr achos yn mynd yn ei flaen fel hawliad a amddiffynnir.

### Hawliad am swm amhenodol

**Os ydych yn addef eich atebolwydd am yr hawliad cyfan, ond nad ydych yn gwneud cynnig i ddiwallu'r hawliad,** llenwch Ffurflen N9C a'i hanfon i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil. Anfonir copi at yr hawlydd, a gall yntau ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn am swm sydd i'w benderfynu gan y llys, a chostau. Bydd y llys yn cofnodi dyfarniad ac yn cyfeirio ffeil y llys at farnwr am gyfarwyddiadau ynglŷn â rheoli'r achos. Anfonir copi o orchymyn y llys atoch chi ac at yr hawlydd.

## Your response and what happens next

### How to pay

Do not bring any payments to the court - they will not be accepted.

When making payments to the claimant, quote the claimant's reference (if any) and the claim number.

Make sure that you keep records and can account for any payments made. Proof may be required if there is any disagreement. It is not safe to send cash unless you use registered post.

### Admitting the Claim

#### Claim for specified amount

**If you admit all the claim,** take or send the money, including the court fee, any interest and costs, to the claimant at the address given for payment on the claim form, within the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR.

**If you admit all the claim and you are asking for time to pay,** complete Form N9A and send it to the claimant at the address given for payment on the claim form, within the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR. The claimant will decide whether to accept your proposal for payment. If it is accepted, the claimant may request the court to enter judgment against you and you will be sent an order to pay. If your offer is not accepted, the court will decide how you should pay.

**If you admit only part of the claim,** complete Form N9A and Form N9B (see 'Disputing the Claim' overleaf) and send them to the court within the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR. The claimant will decide whether to accept your part admission. If it is accepted, the claimant may request the court to enter judgment against you and the court will send you an order to pay. If your part admission is not accepted, the case will proceed as a defended claim.

#### Claim for unspecified amount

**If you admit liability for the whole claim but do not make an offer to satisfy the claim,** complete Form N9C and send it to the court within the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR. A copy will be sent to the claimant who may request the court to enter judgment against you for an amount to be decided by the court, and costs. The court will enter judgment and refer the court file to a judge for directions for management of the case. You and the claimant will be sent a copy of the court's order.

**Os ydych yn addef eich atebolrwydd am yr hawliad ac yn cynnig swm o arian i ddiwallu'r hawliad, llenwch Ffurflen N9C a'i hanfon i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil. Anfonir copi at yr hawlydd a gofynnir iddo a yw'r cynnig yn dderbyniol. Rhaid i'r hawlydd anfon ateb i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil ac anfon copi atoch. Os na cheir ateb, caiff yr hawliad ei atal. Os **dderbynir** y swm a gynigir gennych -**

- gall yr hawlydd ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn am y swm hwnnw.
- os byddwch wedi gofyn am amser i dalu ac os na dderbyniwyd hynny gan yr hawlydd, bydd y llys yn penu cyfradd dalu.

**Os na dderbynir** eich cynnig i ddiwallu -

- gall yr hawlydd ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn am swm i'w benderfynu gan y llys, a chostau; a
- bydd y llys yn cofnodi dyfarniad ac yn cyfeirio ffeil y llys at farnwr am gyfarwyddiadau ynglyn â rheoli'r achos. Anfonir copi o orchymyn y llys atoch chi ac at yr hawlydd.

## Gwrthwynebu'r hawliad

**Os dygir achos yn eich erbyn fel unigolyn am swm penodol o arian ac os ydych yn gwrthwynebu'r hawliad,** gellir trosglwyddo'r hawliad i lys lleol, h.y. sef hwnnw sydd agosaf at y man lle'r ydych yn byw neu yn rhedeg eich busnes, os yw'n lys gwahanol i hwnnw lle cychwynnwyd yr hawliad.

**Os oes arnoch angen mwy o amser na'r amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil i baratoi eich amddiffyniad neu i herio awdurdodaeth y llys i gynnal yr achos,** llenwch y ffurflen Cydnabyddiad Cyflwyno ac anfonwch hi i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser (gweler rheolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil) ar ôl dyddiad cyflwyno manylion yr hawliad i ffeilio'ch amddiffyniad neu i wneud cais i herio awdurdodaeth y llys. Bydd y llys yn hysbysu'r hawlydd eu bod wedi cael eich Cydnabyddiad Cyflwyno.

**Os a'r achos yn ei flaen fel hawliad a amddiffynnir,** anfonir Holiadur Dyrannu atoch chi ac at yr hawlydd. Dywedir wrthych erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid ei ddychwelyd i'r llys. Bydd y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen honno yn gymorth i farnwr benderfynu a ddylid delio â'ch achos ar y trac hawliadau bychain, y trac cyflym neu yr amldrac. Wedi i farnwr ystyried yr holiaduron llawn, anfonir rhybudd dyrannu atoch, yn nodi penderfyniad y barnwr. Bydd y rhybudd hwnnw yn dweud wrthych i ba drac y dyrannwyd yr hawliad, a beth fydd yn rhaid i chi ei wneud i baratoi at y gwrandoawriad neu'r treial. **Mae taflenni sydd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y traciau hyn ar gael o swyddfa'r llys.**

**If you admit liability for the claim and offer an amount of money to satisfy the claim,** complete Form N9C and send it to the court within the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR. The claimant will be sent a copy and asked if the offer is acceptable. The claimant must reply to the court within the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR and send you a copy. If a reply is not received, the claim will be stayed. If the amount you have offered is **accepted** -

- the claimant may request the court to enter judgment against you for that amount.
- if you have requested time to pay which is not accepted by the claimant, the rate of payment will be decided by the court.

**If your offer in satisfaction is not accepted** -

- the claimant may request the court to enter judgment against you for an amount to be decided by the court, and costs; and
- the court will enter judgment and refer the court file to a judge for directions for management of the case. You and the claimant will be sent a copy of the court's order.

## Disputing the claim

**If you are being sued as an individual for a specified amount of money and you dispute the claim,** the claim may be transferred to a local court i.e. the one nearest to or where you live or carry on business if different from the court where the claim was issued.

**If you need longer than the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR to prepare your defence or to contest the court's jurisdiction to try the claim,** complete the Acknowledgment of Service form and send it to the court within the time specified under CPR rule 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR. This will allow extra time see CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR from the date of service of the particulars of claim to file your defence or make an application to contest the court's jurisdiction. The court will tell the claimant that your Acknowledgment of Service has been received.

**If the case proceeds as a defended claim,** you and the claimant will be sent an Allocation Questionnaire. You will be told the date by which it must be returned to the court. The information you give on the form will help a judge decide whether your case should be dealt with in the small claims track, fast track or multi-track. After a judge has considered the completed questionnaires, you will be sent a notice of allocation setting out the judge's decision. The notice will tell you the track to which the claim has been allocated and what you have to do to prepare for the hearing or trial. **Leaflets telling you more about the tracks are available from the court office.**

## Hawliad am swm penodol

**Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r cyfan o'r swm a hawlir neu'n dymuno gwneud hawliad yn erbyn yr hawlydd (sef gwrth-hawliad),** llenwch Ffurflen N9B ac anfonwch hi i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil.

**Os ydych yn addef rhan o'r hawliad,** llenwch y Ffurflen Amddiffyn N9B a hefyd y Ffurflen Addefiad N9A ac anfonwch y ddwy ohonynt i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil. Bydd yr hawlydd yn penderfynu a fydd yn derbyn eich addefiad rhannol i ddiwallu'r hawliad ai peidio (gweler o dan 'Addef yr Hawliad - swm penodol'). Os na fydd yr hawlydd yn derbyn y swm a addefir gennych, bydd yr achos yn mynd yn ei flaen fel hawliad a amddiffynnir.

**Os ydych yn gwrthwynebu'r hawliad oherwydd eich bod eisoes wedi ei dalu,** llenwch y Ffurflen N9B ac anfonwch hi i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil. Bydd yn rhaid i'r hawlydd benderfynu a yw am barhau â'r hawliad ynteu am ei dynnu'n ôl, gan roi gwybod i'r llys ac i chi o fewn 28 diwrnod. Os yw'r hawlydd yn dymuno parhau, bydd yr achos yn mynd yn ei flaen fel hawliad a amddiffynnir.

## Hawliad am swm amhenadol/dychwelyd nwyddau/hawliadau anariannol

**Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r hawliad neu'n dymuno gwneud hawliad yn erbyn yr hawlydd (sef gwrth-hawliad),** llenwch Ffurflen N9D ac anfonwch hi i'r llys o fewn yr amser a bennir dan reolau 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil neu Gyfarwyddyd Ymarfer B Rhan 6 Rheoliadau'r Drefniadaeth Sifil.

## Hawliadau anafiadau personol:

**Os gwneir yr hawliad am anafiadau personol ac os yw'r hawlydd wedi atodi adroddiad meddygol i fanylion yr hawliad, dylech ddatgan yn eich amddiffyniad:**

- eich bod yn cytuno â'r adroddiad **neu**
- eich bod yn gwrthwynebu'r cyfan neu ran o'r adroddiad, **gan** roi eich rhesymau dros wneud hynny, **neu**
- nad ydych yn cytuno â'r adroddiad nac yn ei wrthwynebu **neu** na wyddoch ddim am yr adroddiad.

Os ydych wedi cael adroddiad meddygol eich hunan dylech ei atodi i'ch amddiffyniad.

**Os gwneir yr hawliad am anafiadau personol ac os yw'r hawlydd wedi ychwanegu atodlen o dreuliau a cholledion o'r gorffennol ac i'r dyfodol, rhaid i'ch amddiffyniad ddatgan pa eitemau:**

- yr ydych yn cytuno â hwy **neu**
- yr ydych yn eu gwrthwynebu, **gan** ddarparu ffigurau eraill yn eu lle os yn briodol **neu**
- nad ydych yn cytuno â hwy nac yn eu gwrthwynebu, neu na wyddoch ddim amdanynt.

## Claim for specified amount

**If you wish to dispute the full amount claimed or wish to claim against the claimant (a counterclaim),** complete Form N9B and send it to the court within the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR.

**If you admit part of the claim,** complete the Defence Form N9B and the Admission Form N9A and send them both to the court within the time specified under CPR rule 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR. The claimant will decide whether to accept your part admission in satisfaction of the claim (see under 'Admitting the Claim - specified amount'). If the claimant does not accept the amount you have admitted, the case will proceed as a defended claim.

**If you dispute the claim because you have already paid it,** complete Form N9B and send it to the court within the time specified under CPR rules 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR. The claimant will have to decide whether to proceed with the claim or withdraw it and notify the court and you within 28 days. If the claimant wishes to proceed, the case will proceed as a defended claim.

## Claim for unspecified amount/return of goods/non-money claims

**If you dispute the claim or wish to claim against the claimant (counterclaim),** complete Form N9D and send it to the court within the time specified under CPR rule 6.35(2), 6.35(3), 6.35(4) or Practice Direction B of Part 6 of the CPR.

## Personal injuries claims:

**If the claim is for personal injuries and the claimant has attached a medical report to the particulars of claim, in your defence you should state whether you:**

- agree with the report **or**
- dispute all or part of the report **and** give your reasons for doing so **or**
- neither agree nor dispute the report **or** have no knowledge of the report

Where you have obtained your own medical report, you should attach it to your defence.

**If the claim is for personal injuries and the claimant has attached a schedule of past and future expenses and losses, in your defence you must state which of the items you:**

- agree **or**
- dispute **and** supply alternative figures where appropriate **or**
- neither agree nor dispute or have no knowledge of.

## Y Cyfeiriad lle gellir anfon rhybuddion

Rhaid iddo fod yn gyfeiriad eich twrnai, eich cyfeiriad preswyl neu eich cyfeiriad busnes chi yn y Deyrnas Unedig neu (os ydych yn byw yn rhywle arall) rhyw gyfeiriad arall o fewn y Deyrnas Unedig.

## Datganiad gwirionedd

Rhaid i chi, eich twrnai neu eich cyfaill cyfreitha, fel sydd yn briodol, lofnodi hwn.

Os yw'r diffynnydd yn **gwmni cofrestredig neu yn gorfforaeth** rhaid i'r ymateb gael ei lofnodi naill ai gan gyfarwyddwr, trysorydd, ysgrifennydd, prif weithredwr, rheolwr neu swyddog arall gyda'r cwmni, **neu** (yn achos corfforaeth) gan y maer, y cadeirydd, y llywydd neu glerc y dref.

## Address where notices can be sent

This must be either your solicitor's address, your own residential or business address in the United Kingdom or (if you live elsewhere) some other address within the United Kingdom.

## Statement of truth

This must be signed by you, by your solicitor or your litigation friend, as appropriate.

Where the defendant is **a registered company or a corporation** the response must be signed by either the director, treasurer, secretary, chief executive, manager or other officer of the company **or** (in the case of a corporation) the mayor, chairman, president or town clerk.